# Mae fy nghartref yn bwysig

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Cynhadledd Flynyddol 2025 Anabledd Dysgu Cymru

# Hysbysebu

Dydd Iau 6 Tachwedd – Cyffordd Llandudno, Gogledd Cymru

Dydd Iau 13 Tachwedd – Abertawe, De Cymru



# Am ein cynhadledd flynyddol



Dydy ein cynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru ddim fel cynadleddau eraill.  Mae'n sefyll allan fel enghraifft o gynhwysiant a hygyrchedd.  Rydyn ni yn ymdrechu i sicrhau bod ein digwyddiad yn gyfeillgar ac yn groesawgar i bawb, os oes gennych anabledd dysgu ai peidio.

Mae llawer o'n siaradwyr ac arweinwyr gweithdai yn arbenigwyr trwy eu profiadau eu hunain o gael anabledd dysgu, rydyn ni yn credu bod pawb yn elwa o weithredu fel hyn.

Bob blwyddyn mae'r gynhadledd yn dod â phobl ag anabledd dysgu a gweithwyr proffesiynol ynghyd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn awdurdodau lleol, darparwyr cymorth, sefydliadau gwirfoddol, a chomisiynwyr.

Mae fy nghartref yn bwysig yn edrych ar ble mae pobl ag anabledd dysgu yn byw, y dewisiadau sydd ganddynt yn eu cartrefi, a beth mae pobl yn ei wneud i greu Cymru sydd yn lle gwell i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio ynddi. **Gallwch fod yn rhan o'r digwyddiad unigryw hwn.**

# Sut gallwch chi elwa







Mae cefnogi ein cynhadledd drwy hysbysebu yn rhoi cyfle i chi gyrraedd a dylanwadu ar bobl a sefydliadau yn y gymuned anabledd dysgu yng Nghymru, gall hefyd eich helpu i:

- Cynyddu gwelededd eich sefydliad
- Targedu sefydliadau yn y maes hwn mewn ffordd gost-effeithiol
- Dod o hyd i gleientiaid, partneriaid, a chwsmeriaid newydd
- Cynyddu eich cyfran o'r farchnad di-elw
- Meithrin perthynas â mudiadau eraill yn y sector gwirfoddol
- Dangos eich ymrwymiad i sector di-elw cryf

# Cipolwg ar opsiynau hysbysebu

Bydd pob cynrychiolydd yn derbyn pecyn cynhadledd gan gynnwys llawlyfr a fydd yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wybod am y deuddydd. Gallwch hyrwyddo eich sefydliad drwy hysbysebu mewn nifer o ffyrdd:

| | Hysbyseb tudalen lawn yn y llawlyfr | Hysbyseb hanner tudalen yn y llawlyfr | Nwyddau mewn pecyn cynrychiolwyr |
|---|---|---|---|
| Eich logo ar ein gwefan | ✓ | ✓ | ✓ |
| Eich logo ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd | ✓ | ✓ | ✓ |
| Pris | £250 + TAW | £150 + TAW | Ar gais |

# Hysbysebu yn y llawlyfr

## £180- £300 y diwrnod

Trwy gymryd hysbyseb yn llawlyfr y gynhadledd cewch

- Hysbyseb lliw A4 tudalen llawn neu hanner  tudalen yn llawlyfr y gynhadledd
- Eich logo yn cael ei arddangos ar dudalennau'r gynhadledd ar wefan Anabledd Dysgu Cymru gyda hyperddolen i wefan y cwmni

Rhowch gyfle i'n holl gynrychiolwyr ddysgu mwy am eich sefydliad am £150+TAW am hysbyseb hanner tudalen neu £250+TAW am hysbyseb tudalen lawn.

# Pecyn deunyddiau cynrychiolwyr

Mae'r prisiau'n amrywio ac maent ar gael ar gais.

Efallai eich bod yn chwilio am opsiynau symlach i hyrwyddo eich sefydliad drwy roi rhywbeth i'n cynrychiolwyr i'w hatgoffa ohonoch chi.

Gallwn ddod o hyd i ystod o nwyddau a fydd yn cael eu cynnwys ym mhob pecyn cynrychiolwyr. Ymysg yr eitemau sydd ar gael, mae:

- Peniau
- Bandiau arddwrn
- Ffyn USB
- Troellwyr aflonydd
- Llawer mwy, dim ond gofyn!

## Cysylltu â ni

I drefnu eich hysbysebion, cysylltwch â Lucy O'Leary ar:

Ffôn: 029 2068 1163

Ebost: lucy.oleary@ldw.org.uk

Anabledd Dysgu Cymru
41 Cilgant Lambourne
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd
CF14 5GG

www.ldw.org.uk